Gweminar y Comisiwn Elusennau – Cyfarwyddiadau ymuno.

Diolch am gofrestru i fynychu gweminar y Comisiwn Elusennau.

Cynhelir y weminar hon drwy ddefnyddio Town Hall Microsoft (MS) Teams. Fel mynychwr, ni fyddwch yn weladwy nac yn glywadwy i'r Comisiwn na chyfranogwyr eraill. Gallwch gymryd rhan drwy'r adran Holi ac Ateb, sy'n cael ei chymedroli gan staff y Comisiwn.

Cyfarwyddiadau ymuno

Y ffordd hawsaf o ymuno â'r weminar yw drwy MS Teams ar eich porwr gwe (e.e. Chrome, Edge neu Safari). Gallwch hefyd ymuno drwy ap MS Teams ar eich bwrdd gwaith neu ddyfais symudol.

Sylwch: Os ydych yn ymuno drwy ddyfais symudol neu lechen, bydd rhaid i chi ddefnyddio ap MS Teams, ond ni fydd angen cyfrif Microsoft arnoch.

I gael cyfarwyddiadau llawn, dewiswch un o'r opsiynau isod:

Opsiwn 1 – Gwylio ar borwr gwe
Opsiwn 2 – Gwylio ar ap MS Teams ar fwrdd gwaith
Opsiwn 3 – Gwylio ar ap MS Teams ar ddyfais symudol

Problemau wrth ymuno

Edrychwch ar ein hadran datrys problemau yma i gael atebion.

Recordiad o'r weminar

Os na allwch ymuno'n fyw ar y diwrnod, bydd y gweminarau'n cael eu recordio. Os na fydd unrhyw broblemau technegol, anfonir y ddolen i'r recordiad, ynghyd â chopi PDF o'r sleidiau, o fewn pum diwrnod gwaith i'r weminar. Bydd y recordiad ar gael am 30 diwrnod.

Preifatrwydd

Os hoffech gael gwybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data pan fyddwch yn archebu lle ar ddigwyddiadau allgymorth y Comisiwn Elusennau, neu'n mynychu'r digwyddiadau hynny, edrychwch ar ein hysbysiad preifatrwydd: Privacy notice for Charity Commission outreach events - GOV.UK


I gael gwybodaeth am sut mae Microsoft yn prosesu eich data wrth gyrchu Digwyddiadau Town Hall Microsoft Teams, gweler datganiad preifatrwydd Microsoft: Privacy

Opsiwn 1 – Gwylio ar borwr gwe.


Nid yw porwyr gwe symudol yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd. I wylio ar ddyfais symudol, gweler Opsiwn 3 - Gwylio ar ap MS Teams drwy ddyfais symudol

I ymuno, cliciwch ar y ddolen weminar a ddarperir yn eich e-bost cadarnhau archeb Bookwhen, neu yn yr e-bost ymuno a anfonwyd gan y Tîm Ymgysylltu Elusennau.

Bydd ffenestr newydd yn agor yn eich porwr gwe. Dewiswch “Continue on this browser.”



Cewch eich arwain at y dudalen ganlynol.
Teipiwch yn ddienw yn y bar teitl sydd wedi'i amlygu uchod. Bydd yr holl gwestiynau a ofynnir yn yr adran Holi ac Ateb yn ddienw i'r Tîm Ymgysylltu Elusennau. Unwaith y byddwch yn barod, cliciwch ar y botwm porffor “Join now” yn y gornel dde isaf.




Opsiwn 2 – Gwylio ar ap MS Teams ar gyfrifiadur bwrdd gwaith.

Ni allwch ymuno â Town Hall gan ddefnyddio cyfrif Teams am ddim. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer Opsiwn 1 – Gwylio drwy borwr gwe.


Gwnewch yn siŵr eich bod wedi downloaded the Microsoft Teams app cyn ymuno â'r gweminar.

I ymuno, cliciwch ar y ddolen gweminar a ddarparwyd yn eich e-bost cadarnhau archeb Bookwhen, neu yn yr e-bost ymuno a anfonwyd gan y Tîm Ymgysylltu Elusennau.

Bydd ffenestr newydd yn agor yn eich porwr gwe. Dewiswch “Join on the Teams app.”



Cewch eich arwain at y dudalen ganlynol.
Teipiwch yn ddienw yn y bar teitl sydd wedi'i amlygu uchod. Bydd yr holl gwestiynau a ofynnir yn yr adran Holi ac Ateb yn ddienw i'r Tîm Ymgysylltu Elusennau.
Unwaith y byddwch yn barod, cliciwch ar y botwm porffor “Join now” yn y gornel dde isaf.




Opsiwn 3 – Gwylio ar ap MS Teams drwy ddyfais symudol.

Os ydych chi'n ymuno â digwyddiad Town Hall o'ch ffôn symudol neu dabled, download the Teams mobile app cyn ymuno â'r gweminar. Ar hyn o bryd, nid yw porwyr gwe ar ddyfeisiau symudol yn cael eu cefnogi.

I ymuno, cliciwch ar y ddolen weminar sydd yn yr e-bost cadarnhau archeb Bookwhen, neu yn yr e-bost ymuno a anfonwyd ymlaen llaw gan y Tîm Ymgysylltu Elusennau.
Dylai hyn agor ap MS Teams yn awtomatig ar eich ffôn neu lechen. Dylai'r ffenestr ganlynol ymddangos. Gallwch fewngofnodi, ond gallwch hefyd ymuno heb gyfrif.

Teipiwch yn ddienw yn y bar teitl sydd wedi'i amlygu uchod. Bydd pob cwestiwn a ofynnir yn yr adran Holi ac Ateb yn ddienw i'r Tîm Ymgysylltu Elusennau.

Unwaith y byddwch yn barod, cliciwch ar y botwm porffor "Join now" isod.



Datrys Problemau

Canllawiau gan Microsoft ar attending a Town Hall in Microsoft Teams

Ceisiwch y canlynol os byddwch yn cael trafferthion wrth ymuno'n fyw.

- Os ydych yn cael trafferth ymuno drwy ap MS Teams ar fwrdd gwaith, ceisiwch ymuno drwy borwr gwe. Sicrhewch eich bod yn defnyddio porwr gwe sy'n cefnogi media source extension (MSE), fel Chrome, Firefox, Edge neu Safari.

- Os nad yw'r ddolen yn ymddangos fel ei bod yn gweithio, ceisiwch gopïo'r ddolen ymuno ar gyfer y gweminar a'i gludo'n syth i far cyfeiriad eich porwr.

- Os oes opsiwn i wneud hynny, ymunwch â'r Town Hall yn ddienw, yn hytrach na mewngofnodi gyda'ch cyfrif MS Teams personol neu waith. Gallwch allgofnodi o'ch cyfrif ac ymuno fel hyn; nid oes angen cyfrif MS Teams arnoch i wylio Town Hall.

- Ceisiwch adael y Town Hall ac ymuno eto. Efallai y bydd angen i chi wasgu'r botwm chwarae i ddechrau'r gweminar. Sylwch efallai na fydd y cyflwynydd yn siarad am ychydig funudau ar y dechrau.

- Os yw eich cysylltiad rhyngrwyd yn wan, efallai na fyddwch yn gallu ymuno â Town Hall Teams ar unwaith. Ceisiwch aros i'ch cysylltiad wella, ymuno drwy ddyfais symudol sy'n cael ei chefnogi, neu gysylltu â'ch darparwr rhyngrwyd.

- Cliriwch y storfa yn eich ap MS Teams - Clear the Teams client cache - Microsoft Teams | Microsoft Learn

- Gwiriwch fod eich ap MS Teams yn gyfredol - Find the version of Microsoft Teams you're using | Microsoft Support ac Update Microsoft Teams | Microsoft Support

- Cliriwch storfa eich porwr gwe. Gweler canllawiau gan ddarparwr eich porwr gwe ar sut i wneud hyn.

- Gwiriwch fod eich porwr gwe yn gyfredol. Gweler canllawiau gan ddarparwr eich porwr gwe ar sut i ddiweddaru eich porwr.